



Cervical Screening **Wales**
Sgrinio Serfigol **Cymru**



Bron Brauf Cymru *Breast Test Wales*

Bowel
Screening
Wales



Sgrinio
Coluddion
Cymru

Rhaglen Sgrinio
Ymlediaid Aortig
Abdominol Cymru



Wales Abdominal
Aortic Aneurysm
Screening Programme



Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
Diabetic Eye Screening Wales



Newborn Hearing Screening **Wales**
Sgrinio Ciyw Babanoedd **Cymru**



Newborn Bloodspot
Screening **Wales**
Sgrinio Smotyn Gwaed
Newydd-anedig **Cymru**

Sgrinio Cyn Geni **Cymru**
Antenatal Screening **Wales**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru (cyflwyno data 2017/18)

Ionawr 2019

Sgrinio am oes
Screening for life



www.screeningforlife.wales.nhs.uk

Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

Diogelu iechyd — darparu gwybodaeth a chynghor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

Microbioleg — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Diogelu — darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

Sgrinio — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

Gwybodaeth iechyd — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG — darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

Gwella iechyd — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhagor o wybodaeth

Gwefan: www.publichealthwales.org/strategy
E-bost: general.enquiries@wales.nhs.uk
Twitter: @PublicHealthW
Facebook: <https://www.facebook.com/PublicHealthWales/>

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Teitl: Adroddiad Blynnyddol Cymru, Gyfan Adran Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2019.

ISBN 978-1-78986-011-5

Cynnwys

Cyflwyniad	T1
Crynodeb Cymru gyfan	T2
Ymgysylltu â'r boblogaeth, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill	T6
Bron Brawf Cymru	T11
Sgrinio Coluddion Cymru	T12
Sgrinio Serfigol Cymru	T14
Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru	T16
Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant	T17
Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru	T19
Rhagolwg	T21
Tîm cynhyrchu	T22
Rhagor o wybodaeth a chysylltiadau	T23

Mae'r Adran Sgrinio yn cynorthwyo datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar drwy gyflawni rhaglenni sgrinio cenedlaethol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar boblogaeth.

Yn unol â chynllun hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018-2030, rydym yn ymrwymedig hefyd i:

- Symud tuag at atal
- Ymyrryd yn gynnar yn y gymuned
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg
- Gwella ansawdd a diogelwch cleifion

1 Cyflwyniad

Mae sgrinio yn broses o nodi pobl sy'n ymddangos yn iach a all fod mewn mwy o berygl o glefyd neu gyflwr. Yna gellir cynnig profion pellach a thriniaeth briodol iddynt i leihau eu risg a/neu gymhlethdodau sy'n codi o'r clefyd neu'r cyflwr.

Mae'r Adran Sgrinio yn cyflwyno'r saith rhaglen sgrinio genedlaethol seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru:

1. Bron Brawf Cymru
2. Sgrinio Coluddion Cymru
3. Sgrinio Serfigol Cymru
4. Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
5. Sgrinio Clyw Babanod Cymru
6. Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
7. Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

ac mae'n rheoli rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru.



Mae'r Adran Sgrinio yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn ymrwymedig i'r weledigaeth o gyflawni Cymru iachach, hapusach a thecach.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r data diweddaraf sydd ar gael am y rhaglenni sgrinio dros flwyddyn ariannol 2017/2018. Mae'r naratif yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglenni sydd wedi'i diweddarau ar adeg cyhoeddi, felly nid yw'n cwmpasu'r un amserlen yn union. Mae hyn yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol. Mae'r holl ddata yn yr adroddiad wedi'u darparu gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2 Crynodeb Cymru gyfan

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r saith rhaglen sgrinio genedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru ac yn rheoli'r Rhwydwaith Clinigol Sgrinio Cyn Geni. Mae isafswm targedau ar gyfer y nifer sy'n cael eu sgrinio/cwmpas yn cael eu pennu ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio a reolir. Ymunodd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2016. Mae'r adroddiadau perfformiad cyntaf wedi cael eu paratoi yn fewnol yn ystod 2018 a chânt eu cynnwys yn yr adroddiadau blyneddol hyn cyn gynted ag y bydd blwyddyn gyfan o ddata ar gael.

Tabl Crynodeb: Ffigurau nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio/cwmpas Cymru, 2017/18

	Nifer sy'n gymwys/a wahoddwyd	Nifer a brofwyd	Y nifer a gafodd eu sgrinio/cwmpas	Newid o 2016/17
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio'r Fron - safon ofynnol 70%	148,457	102,435	72.8%*	-0.3%
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio Coluddion - Targed 60%	283,106	157,594	55.7%	+2.3%
Cwmpas Sgrinio Serfigol - Targed 80%	222,201	140,080	76.1%*	-0.9%
Y nifer a gafodd brawf Sgrinio Ymlediadau - Targed 80%	16,668	13,193	79.2%	-1.6%
Sgrinio Clyw Babanod - Targed 95%	32,450	32,257	99.4%	-0.1%
Sgrinio Smotyn Gwaed - Y targed yw i 95% o fabanod gael canlyniad sgrinio terfynol erbyn diwrnod 17 o fywyd	32,159	31,932	99.3%	dd/b

Paratowyd gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

* Y niferoedd a gyflwynodd ar gyfer sgrinio Serfigol a sgrinio'r Fron yw nifer y menywod a wahoddwyd ac a brofwyd yn 2017/18. Mae'r canrannau'n ymwneud â'r nifer a gafodd brawf sgrinio'r fron ar gyfer y rownd ddiweddaraf a gwblhawyd, ac mae cwmpas sgrinio serfigol yn dangos cyfran y menywod 25-64 oed sydd wedi cael prawf ceg y groth yn y pum mlynedd diwethaf. Mae ffigurau manylach, gan gynnwys y nifer sy'n cael prawf yn ôl clwstwr meddyg teulu, ar gael yn <http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

Mae'r Gwasanaeth Sgrinio'r Fron yn cael ei ddarparu gan unedau symudol sgrinio'r fron sy'n teithio ledled y wlad gan wahodd menywod. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r tro diwethaf y cafodd menywod yn eu practis eu galw. Y safon ofynnol yw i 70% o fenywod a wahoddir gael prawf sgrinio. Gwnaeth nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio gynyddu 0.6% yn 2016/17 ond eleni mae wedi lleihau ychydig i 72.8%.

Nid yw'r nifer a gafodd prawf sgrinio coluddyn yn cyflawni'r targed 60% yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r nifer a gafodd eu sgrinio wedi cynyddu 2.3% eleni i 55.7% sy'n welliant amlwg.

Mae cwmpas y nifer a gafodd sgrinio serfigol ledled Cymru'n agos o hyd at y targed, sef 80%, sy'n golygu bod bron wyth o bob deg menyw yng Nghymru wedi cael eu sgrinio yn y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, eleni unwaith eto bu gostyngiad bach, sef 0.9%, yn unol â'r duedd ostyngol ar draws y DU.

Y targed yw i 80% o ddynion a wahoddir gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio ymlediadau aortig. Ar ôl cynyddu yn 2016/17, gwnaeth y nifer a gafodd eu sgrinio ar gyfer ymlediadau aortig ostwng yn 2017/18 i ychydig o dan y targed o 80% ar 79.2%.

Yn 2017/18, cafodd 31,932 o fabanod brawf smotyn gwaed, sef 99.3% o'r boblogaeth gymwys: Cafodd 39 o gyflyrau difrifol eu nodi. Mae sgrinio clyw babanod yn parhau'n uchel iawn hefyd gyda 99.4% o fabanod yn cael eu sgrinio.

Negeseuon allweddol o 2018

- Cynigiwyd 909,281 o wahoddiadau sgrinio i'n poblogaeth gymwys yn 2017/2018¹.
- Ym mis Hydref, llwyddwyd i gyflwyno prawf Feirws Papiloma Dynol (HPV) yn llawn fel prawf sylfaenol mwy effeithiol yn ein rhaglen serfigol a ni yw'r rhaglen gyntaf yn y DU i weithredu'r prawf gwell hwn ar gyfer ein poblogaeth.
- Mae gwaith gyda byrddau iechyd ac Ymchwil Canser y DU gan ganolbwyntio ar Sgrinio Coluddion wedi bod yn gynhyrchol gydag 'ymgyrch bod yn glir am ganser' wedi'i chyllido gan Ymchwil Canser y DU ar draws teledu, y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cynnydd yn nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio coluddyn yn y 12 wythnos yn dilyn hynny, gyda'r llwyddiant mwyaf ymhlith cyfranogwyr a wahoddwyd am y tro cyntaf.
- Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer gweithredu prawf gwell wrth sgrinio coluddion (profion imiwnocemegol ysgarthol neu FIT), gyda disgwyl i broses weithredu fesul cam ddechrau ym mis Ionawr 2019.
- Gwnaethom weithredu System Archifo Llundiau newydd ar gyfer ein Rhaglen Sgrinio'r Fron sy'n galluogi mwy o weithio ar draws canolfannau.
- Rydym wedi cydweithio â phartneriaid gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro ac ymddiriedolaeth GIG Felindre i ddatblygu adnodd hyfforddi y gellir ei gyflawni gan diwtoriaid 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' i fyfyrwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Cafodd Sharon Hillier ei phenodi'n barhaol yn Gyfarwyddwr yr Adran Sgrinio ym mis Ebrill 2018. Cafodd Heather Lewis ei phenodi'n barhaol i rôl Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus yn yr adran ac mae Ardiana Gjini wedi cael ei phenodi hefyd mewn rôl Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, i ddechrau'r swydd ym mis Ionawr 2019.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, o dan ei Bennaeth Rhaglen newydd, i weithio er mwyn galluogi darpariaeth gwasanaeth gynaliadwy er gwaethaf y twf parhaus yn y boblogaeth ddiabetig.
- Er bod gwaith yr adran sgrinio o ddydd i ddydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sgrinio diogel, effeithiol, mae datblygiad bob amser i'n gwaith. Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus yn cynnwys newidiadau polisi, technolegau newydd ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Rhaglen uchelgeisiol Sgrinio ar gyfer y Dyfodol yn parhau eleni, yn unol â'n strategaeth 10 mlynedd.

¹ Heb gynnwys sgrinio cyn geni

Anhgydraddoldeb wrth Gymryd Rhan


Mae anghydraddoldeb wrth gymryd rhan mewn sgrinio wedi'i ddangos ledled Cymru, gyda chyfranogiad ar gyfer yr holl raglenni sgrinio i oedolion yn gostwng wrth i amddifadedd gynyddu. Mae'n bwysig nodi nad oes gwahaniaeth amlwg yn ôl amddifadedd yn y nifer a gafodd eu sgrinio ar gyfer y rhaglenni Sgrinio Clyw Babanod a Smotyn Gwaed Newydd-anedig, lle mae'r nifer a gafodd eu sgrinio yn uchel ar draws pob grŵp. Mae'r siart far drosodd yn dangos nifer y rhai sy'n cael prawf yn ôl cwintel amddifadedd.

O gymharu â 2016/17, mae nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio coluddyn wedi cynyddu ar y cyfan. Er bod nifer y rhai a gafodd brawf wedi cynyddu ar draws pob cwintel, mae wedi cynyddu ychydig yn fwy yn y grwpiau lleiaf difreintiedig sy'n golygu bod y gwahaniaeth rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi ehangu ychydig eleni. Dylid nodi, fodd bynnag, fod cynnydd o 2% yn y grŵp mwyaf difreintiedig o gymharu â'r llynedd.

Mae cwmpas sgrinio serfigol wedi gostwng ychydig ar y cyfan ac ar draws pob cwintel, ac mae'r bwlch rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn parhau'n ddigynfnewid ers y llynedd.

Ar gyfer profion sgrinio'r fron, mae nifer y rhai a gafodd eu sgrinio wedi gostwng ychydig yn gyffredinol a gostwng ym mhob cwintel ac eithrio'r lleiaf difreintiedig. Mae hyn wedi arwain at y bwlch anghydraddoldeb yn cynyddu ychydig eleni.

Yn yr un modd, mewn sgrinio ymlediadau aortig mae nifer y rhai a gafodd eu sgrinio wedi gostwng ychydig ar draws yr holl grwpiau ond yn fwy ymhlith y cwintelau mwy difreintiedig, gan gynyddu'r bwlch anghydraddoldeb ychydig.



Paratowyd gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nid oes gwahaniaeth sylweddol yn nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio clyw babanod gyda 99.2% neu uwch ym mhob grŵp. Yn yr un modd nid oes gwahaniaeth sylweddol o ran nifer y rhai a gafodd eu sgrinio rhwng cwintelau mewn sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig².

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i ni yn yr Adran Sgrinio. Eir i'r afael â'r gwahaniaethau annheg hyn yn strategol ac yn weithredol, gan weithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r thema hon yn parhau drwy gydol yr adroddiad gan mai nod ein gwaith ymgysylltu, sy'n sail i'n holl newidiadau a datblygiadau, yw cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gwella mynediad at y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Gweithio gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid eraill y GIG

Mae gan yr Adran Sgrinio Gytundeb Hirdymor gyda phob bwrdd iechyd ac mae hefyd yn prynu nifer o sesiynau ymgynghorol i gefnogi cyflwyno sgrinio'r fron, serfigol a choluddion. Ceir rhai pryderon ynghylch cynaliadwyedd a gallu ac adnoddau mewn rhai o'r ardaloedd lle mae byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau y mae'r Adran Sgrinio yn dibynnu arnynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys radioleg y fron, colonosgopi a gwasanaethau colposgopi, a gwasanaethau patholeg, yn enwedig histoleg. Ceir problemau recriwtio mewn rhai disgyblaethau diagnostig allweddol, sy'n cyfyngu ar allu ac adnoddau ac yn cael effaith ar amseroldeb nifer o raglenni. Mae cydweithwyr yr Adran Sgrinio a'r byrddau iechyd yn cydweithio er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan GIG Lloegr y byddant yn disodli eu system galw/ailalw ar gyfer sgrinio serfigol, sef y system a ddefnyddir gan Sgrinio Serfigol Cymru, darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru adeiladu system TG newydd bwrpasol. Y cynnyrch hwn o'r enw'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol fydd y system gyntaf i'w datblygu fel rhan o brosiect ehangach System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio yr Adran Sgrinio. Mae tîm o ddatblygwyr wedi bod yn gweithio gyda Sgrinio Serfigol Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddechrau adeiladu'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol, a fydd yn cynnwys ffrwd ddemograffig o Wasanaeth Demograffig Cymru a rhyngwynebu â'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy. Bwriedir i'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol 'fynd yn fyw' y flwyddyn nesaf.

Gwnaed y penderfyniad mai dim ond un Labordy Sytoleg fyddai ei angen yng Nghymru ar ôl trosi'n llawn i sgrinio sylfaenol ar gyfer Feirws Papiloma Dynol yn y Rhaglen Sgrinio Serfigol. Mewn ymgynghoriad â'r byrddau iechyd yr effeithir arnynt, cytunwyd y byddai labordy Sytoleg Iechyd Cyhoeddus Cymru ger Llantrisant yn ymgymryd â'r holl brofion Feirws Papiloma Dynol a sgrinio sytoleg pan fydd y prawf Feirws Papiloma Dynol yn cael ei weithredu'n llawn. Byddai samplau wedi'u nodi fel rhai annormal o bosibl yn cael eu hanfon er mwyn cael adroddiad gan Bathologydd/Uwch-ymarferydd mewn pum labordy ysbytai bwrdd iechyd. Yn ystod y cyfnod yn arwain at gyflwyno'n llawn, dechreuodd y staff yn y labordai byrddau iechyd nad oeddent yn parhau i ddarparu gwasanaethau sgrinio eu proses adleoli, a oedd yn golygu bod llai o staff ar gael ar gyfer sgrinio samplau. O ganlyniad cafodd mwy o bractisau meddygon teulu eu trosi'n sgrinio sylfaenol Feirws Papiloma Dynol i liniaru, ac felly nid oedd yr amseroedd adrodd wedi cynyddu y tu hwnt i derfynau

² ni ellir canfod y cwintel amddifadedd mewn 6% o fabanod yn 2017/18 o ran data'r rhaglen smotyn gwaed

derbyniol. Yn union cyn trosi llawn i sgrinio sylfaenol Feirws Papiloma Dynol, roedd tua 50% o bractisau meddygon teulu wedi'u trosi.

Rydym yn ddyledus i'r sgrinwyr sytoleg a wnaeth y sgrinio i safon mor uchel am flynyddoedd lawer ar gyfer y rhaglen gan alluogi'r rhaglen sgrinio serfigol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd mor uchel. Rydym yn ddiolchgar iawn bod llawer o'r staff wedi parhau i sgrinio hyd at weithredu profion Feirws Papiloma Dynol ym mis Hydref eleni. Diolch o galon iddynt.

3 Ymgysylltu â'r boblogaeth gymwys am sgrinio

3.1 Tîm Ymgysylltu â Sgrinio

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn dîm bach sy'n gweithio ar draws yr holl raglenni sgrinio yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cynnwys un Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio Arweiniol, pum Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio a dau Ymarferydd Ymgysylltu â Sgrinio sy'n cael eu cefnogi gan Weinyddwyr. Mae staff wedi'u lleoli'n rhanbarthol yng ngogledd, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru.

Dolenni i'r negeseuon allweddol:

- [Y fron](#)
- [Coluddion](#)
- [Serfigol](#)
- [Ymlediadau](#)
- [Sgrinio Cyn Geni Cymru](#)
- [Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig](#)
- [Sgrinio Clyw Babanod](#)

Rôl y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yw cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid ac ar draws nifer o leoliadau yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o sgrinio a hyrwyddo dewis hyddysg mewn ardaloedd lle mae nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio yn isel.

Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda chymunedau amrywiol nad ydynt o reidrwydd yn ymgysylltu â gwasanaethau sgrinio er mwyn deall yn well y rhesymau pam. Mae'r ddealltwriaeth hon yn cael ei rhannu â rhaglenni er mwyn iddynt allu deall yn well yr heriau sy'n wynebu'r cymunedau hyn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael a'r ddealltwriaeth a ddarparwyd gan y tîm, gall rhaglenni hefyd ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer gwelliannau i wasanaethau sy'n hyrwyddo profiad mwy cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau ac sy'n cynnwys gwasanaeth mwy cynhwysol.

Yn adrannol ceir ymrwymiad i drafod cyfleoedd i ddarparu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n ceisio gwella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae Grŵp Nifer sy'n cael eu Sgrinio wedi'i sefydlu ac mae'r tîm yn cydweithio â rhaglenni mewn perthynas â'r gwaith hwn.

Mae'r tîm yn cydweithio ac yn cydgynhyrchu â phartneriaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu gwybodaeth o ansawdd uchel, gynhwysol a hygyrch. Maent yn ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid proffesiynol yn ystod y gwaith o ddatblygu, adolygu a phrofi gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod gwybodaeth i'r cyhoedd a baratoir gan y tîm a'r adran ehangach o safon uchel, yn cael ei pharatoi'n gyson ac yn diwallu anghenion y gynulleidfa darged.

Eleni yn benodol, mae llawer o amser y tîm wedi'i dreulio'n cefnogi gwaith gweithredol a datblygiadau yn y rhaglenni.

Yn sgil cyflwyno profion sylfaenol Feirws Papiloma Dynol yng Nghymru a'r bwriad i gyflwyno profion FIT sgrinio coluddion, mae'r tîm yn parhau i ymgysylltu â llawer o bartneriaid i gynorthwyo cynlluniau gweithredu a datblygiadau gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio hefyd gyda'r Rhaglenni Mamau a Phlant i ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddatblygu ffilm ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynorthwyo wrth gyflwyno Prawf Cynenedigol Anfewnwithiol (NIPT) fel prawf wrth gefn yng Nghymru.

Y tu allan i'r rhaglen waith, mae'r tîm wedi bod yn gweithio i ailwampio'r pecyn hyfforddi hyrwyddwr cymunedol ac mae bellach yn datblygu cynlluniau i gyflwyno hyn. Maent wedi adolygu pecyn hyfforddi gwirfoddolwyr yr Adran Sgrinio ac yn parhau i recriwtio i'w cronfa fach o wirfoddolwyr sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol, mewn ardaloedd lle mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn isel.



Mae'r tîm yn ymwneud â nifer o ffrydiau gwaith lleol a chenedlaethol. Yn lleol, maent yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i godi ymwybyddiaeth o sgrinio a darparu amrywiaeth o gymorth lleol.

Yn genedlaethol, mae'r tîm yn ymwneud â nifer o brosiectau ac wedi arwain arnynt. Eleni maent wedi cynnal prosiect i ddeall yn well y rhwystrau a allai fodoli i bobl ag anabledd dysgu a'r rhai sy'n eu cefnogi. Maent hefyd wedi cynnal prosiect gyda menywod iau er mwyn deall yn well pa rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer menywod iau a wahoddwyd i'w hapwyntiad sgrinio serfigol.

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio fel rhan o raglen gydweithredol gyda phartneriaid gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro ac ymddiriedolaeth GIG Felindre i ddatblygu adnodd hyfforddi y gellir ei gyflawni gan diwtoriaid 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' i fyfyrwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ym mis Medi a gefnogwyd gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n agos gyda rhaglenni i gyflwyno'r 6^{ed} ymgyrch Sgrinio am Oes a oedd yn canolbwyntio ar y rhai oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen am y tro cyntaf. Roedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu fel dull o gyfathrebu yn llwyddiannus iawn.

3.2 Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Mae holl llythyrau a thafleuni'r adran yn cael eu datblygu drwy gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, ac mae gan y rhain gylch adolygu o dair blynedd. Eleni, mae'r Grŵp Gwybodaeth i'r Cyhoedd Craidd adrannol wedi adolygu llythyrau gwahoddiad ar gyfer yr holl raglenni. Mae hyn wedi galluogi rhannu dysgu ac arfer gorau a bydd yn gwella cysondeb ar draws y rhaglenni wrth i'r llythyrau newydd gael eu gweithredu.

Mae'r rhaglenni wedi adolygu a datblygu gwahanol wybodaeth i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn. Mae Bron Brawf Cymru wedi adolygu a diweddarau taflen a roddir i fenywod sy'n cael eu hailalw i glinig asesu. Bydd gwaith pellach yn cynnwys adolygiad o'r daflen Bod yn gyfarwydd â'ch bronnau, sef taflen sy'n cael ei hanfon gyda phob llythyr canlyniadau.

Mae cyfres newydd o wybodaeth wedi'i pharatoi gan Sgrinio Serfigol Cymru i gefnogi'r broses o gyflwyno Profion Sylfaenol Feirws Papiloma Dynol. Mae taflen wybodaeth, llythyr a phoster newydd mewn iaith glir wedi'u datblygu. Yn ogystal â hyn, mae taflen wybodaeth Hawdd ei Darllen ar Feirws Papiloma Dynol wedi'i datblygu hefyd. Mae'r holl adnoddau wedi'u cydgynhyrchu ac maent wedi cynnwys ymgysylltu helaeth. Mae'r adnodd Hawdd ei Darllen wedi'i ledaenu i bartneriaid cymunedol ledled Cymru. Mae'r adnodd wedi cael adborth cadarnhaol a chafwyd dros 60 o ymatebion.

Mae rhaglen waith yn mynd rhagddi i gefnogi'r broses o gyflwyno profion FIT sgrinio coluddion yng Nghymru. Mae gwaith ymgysylltu wedi bod yn mynd rhagddo i gynorthwyo'r gwaith hwn gyda gweithdai'n cael eu cynnal gyda sefydliadau cydraddoldeb ym mis Ebrill. Mae gwaith pellach i ymgysylltu â'r gymuned wedi'i

wneud i lywio'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth i gynorthwyo'r gyfres newydd o adnoddau yn barod ar gyfer gweithredu profion FIT. Gwnaethom weithio gyda'r Tîm Newid Ymddygiad yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn nodi'r her ymddygiadol wrth ddylunio ein deunyddiau:

- Beth yw'r ymddygiad dymunol yn ein grwpiau targed?
- Ble ac ar ba adeg mae'r ymddygiad yn digwydd?
- Beth yw rôl pobl eraill?



Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn dechrau rhaglen a gynlluniwyd o waith er mwyn adolygu ei gwybodaeth bresennol i'r cyhoedd. Lle y bo'n briodol, ymgysylltir â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth i'r cyhoedd o safon uchel ac yn briodol i'r gynulleidfa a fwriedir.

Mae rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant wedi paratoi taflenni gwybodaeth i'r cyhoedd a ffilm i esbonio wrth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol y cynnig NIPT fel prawf wrth gefn yng Nghymru. Cafodd ymgysylltu mewn perthynas â datblygu gwybodaeth i'r cyhoedd ei wneud gan y rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant a'r Tîm Ymgysylltu â

Sgrinio. Cafodd yr adnoddau eu lansio ym mis Ebrill 2018. Mae'r tîm Mamau a Phlant yn bwriadu adolygu'r adnoddau hyn ar ddechrau 2019.

Mae'r Adran Sgrinio yn ceisio trefnu bod yr holl wybodaeth i'r cyhoedd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Mae'r rhan fwyaf o'n gwybodaeth ar gael yn Gymraeg, Saesneg, mewn fersiwn Hawdd ei Darllen, gyda llawer hefyd mewn fersiwn sain ac Iaith Arwyddion Prydain, gyda chyfleuster i gyfieithu Braille a phrint bras yn gyflym ar gais.

Mae'r ddolen hon yn mynd i dudalennau gwe hygyrch Sgrinio am Oes:

<http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/gwybodaeth-hygyrch>

3.4 Ymgysylltu â phobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth

Mae ein Hadran Sgrinio yn cydnabod pwysigrwydd gwrandao ar ein defnyddwyr gwasanaethau i'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Yn ogystal â gwella profiad y rhai sy'n cymryd rhan, gall helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhaglenni os ydym yn gwrandao ac yn gwneud ein gwasanaethau mor hygyrch a derbyniol ag y gallwn.

Er bod aeddfedrwydd y gwaith Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn amrywio rhwng rhaglenni, erbyn hyn mae gan bob un ddull i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth ac i'r rhaglen ystyried yr hyn mae'n ei glywed a gweithredu arno. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod rydym yn bwriadu edrych ar sut y gallwn ehangu ar bwy sy'n gallu rhoi adborth i ni ar hyn o bryd.

Yn 2017/18, o'r tri chwestiwn craidd mae'r holl raglenni'n eu gofyn:

- dywedodd 98% o bobl iddynt gael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt
- dywedodd 99% o bobl fod staff yn gwrtais ac yn ofalgar
- dywedodd 96% o bobl iddynt gael profiad da

Dywedodd
98% o bobl iddynt gael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt
Dywedodd 99% o bobl fod staff yn

99% GWRTAIS ac yn OFALGAR

96% o bobl iddynt gael profiad da

Cesglir adborth drwy holiaduron, cwynion a chanmoliaethau, a chesglir straeon cleifion hefyd. Mae straeon cleifion yn ddefnyddiol i'r rhaglenni ddysgu ganddynt a helpu gydag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill. Mae adroddiadau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn cael eu trafod mewn byrddau rhaglenni a chyfarfodydd tîm uwch reolwyr ac mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu yn cael eu rhannu ar draws y rhaglenni ac yn ehangach yn y sefydliad.

3.5 Ymgysylltu â Gweithwyr Iechyd Proffesiynol am sgrinio

Er bod ein holl raglenni'n cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol, un ffactor cyson yw na allem ddarparu'r hyn rydym yn ei ddarparu heb weithio agos gyda chydweithwyr yn y GIG ehangach.

Mae ein partneriaid allweddol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol. Er bod eu rôl uniongyrchol mewn sgrinio'n amrywio rhwng rhaglenni (e.e. cynnal profion ceg y groth yn Sgrinio Serfigol Cymru o'i gymharu â derbyn canlyniadau yn Sgrinio Coluddion Cymru) mae rôl bwysig wrth godi ymwybyddiaeth ac ateb cwestiynau cleifion ar draws yr holl raglenni. Mae tystiolaeth hefyd i ddangos pwysigrwydd cymeradwyaeth meddyg teulu o ran annog pobl i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio³.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at gyflwyno sgrinio Feirws Papiloma Dynol yn llawn, roedd angen hyfforddi'r holl unigolion sy'n cymryd sampl nad ydynt eisoes wedi'u trosi i sgrinio sylfaenol Feirws Papiloma Dynol. Gwnaed hyn gan dîm nyrsio Sgrinio Serfigol Cymru, ac roedd yn cynnwys hyfforddi o leiaf un unigolyn sy'n cymryd sampl ym mhob practis yng Nghymru. Yna rhoddodd yr unigolion hyn sy'n cymryd sampl hyfforddiant rhoadru yn ôl yn eu practisau, wedi'i gefnogi gan fideo hyfforddi ar wefan Sgrinio Serfigol Cymru.

Ein cydweithwyr yn y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol yw ein prif gyswllt â'r clystyrau meddygon teulu, gyda'u gwybodaeth leol a'u cysylltiadau lleol. Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio'n anfon diweddariad dwywaith y flwyddyn at gysylltiadau yn y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol er gwybodaeth iddynt ac yn helpu i lywio sgysiau â chlystyrau. Mae'r diweddariad yn rhoi manylion am newyddion a datblygiadau ac yn cynnwys y ffigurau diweddaraf sydd ar gael am y nifer sy'n cael prawf ar lefel clwstwr. Eleni, mae ein tîm ymgysylltu wedi bod yn gweithio gyda gofal sylfaenol ar gyfer ei ymgyrch Sgrinio am Oes gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn isel.

Mae atal cancer a chanfod cancer yn gynnar yn ddwy o'r blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru⁴, sy'n cael ei sbarduno gan y Grŵp Gweithredu ar Ganser. Mae ein rhaglenni sgrinio cancer yn cymryd rhan yn y gwaith hwn fel rhan bwysig o drefniadau atal sylfaenol ac eilaidd.

3.6 Ymgysylltu â phartneriaid trydydd sector

Mae gan yr holl raglenni sgrinio gysylltiadau â'r trydydd sector. Mae'r gwaith ar y cyd yn cynnwys help gyda chodi ymwybyddiaeth gan elusennau'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn gysylltiedig â'r hyn rydym yn sgrinio ar ei gyfer, yn ogystal â chynnwys mewn datblygiadau rhaglen, er enghraifft help gyda gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi bod yn cynorthwyo hwylusydd Ymchwil Cancer y DU gan weithio gyda chlystyrau meddyg teulu ar draws byrddau iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro i gynyddu nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio'r coluddyn. Mae'r

³ Cymeradwyaeth Meddygon Teulu: Hewitson et al. Br J Cancer 2011 Awst 9;105(4):475-80 DOI: 10.1038/bjc.2011.255

⁴ Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/plans/cancer-plan/?lang=cy>

rhaglen hwylusydd yn darparu hyfforddiant ar ymyriadau sydd wedi'u profi i gynyddu nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio, gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar gyfer staff nad ydynt yn glinigol i siarad yn gyfrinachol am sgrinio coluddion
- Dosbarthu cerdyn gwybodaeth i gleifion sy'n dymuno ailarchebu eu prawf
- Pecynnau sampl drwy'r post i weithwyr iechyd proffesiynol eu trafod er mwyn iddynt allu ateb cwestiynau cleifion yn well

Mae Ymchwil Canser y DU hefyd wedi dosbarthu canllaw arfer da i bob practis meddyg teulu yng Nghymru gyda'r nod o gynorthwyo'r broses o gynyddu nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio.

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn rhanddeiliad allweddol yn 'Iechyd Menywod yn Gyntaf', prosiect a reolir gan y sefydliad trydydd sector yng Nghaerdydd, Women Connect First. Nod y prosiect yw gwella iechyd a llesiant pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig drwy gynyddu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a chymdeithasol a lleihau'r rhwystrau posibl o ran cael mynediad i wasanaethau gofal iechyd. Mae sesiynau ymwybyddiaeth o sgrinio wedi'u cynnal gyda menywod sy'n cyfranogi yn y prosiect i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sgrinio a chynyddu hyder o ran cael mynediad i wasanaethau.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn cydlynu ein gwaith ymgyrchu ar sgrinio serfigol gydag Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo i gyd-fynd â 10 mlwyddiant marwolaeth Jade Goody ym mis Mawrth.

4 Bron Brawf Cymru

Nod: Nod y rhaglen sgrinio'r fron yw lleihau afiachusrwydd a marwolaeth o ganser y fron. Dull **atal eilaidd** yw hwn gyda dull canfod canser yn gynnar yn galluogi triniaeth brydlon.

Targed: Y safon ofynnol yw i 70% o fenywod a wahoddir gael eu sgrinio a'r targed yw 80%.

Mae Bron Brawf Cymru wedi dangos perfformiad cryf o ran cyhoeddi canlyniadau normal o fewn dau wythnos i sgrinio'r fron. Mae'r rhaglen yn parhau i ddangos cyfraddau canfod canser uchel. Mae cyflawni'r targed ar gyfer amseroedd aros clinig asesu yn parhau i fod yn heriol, y targed yw cynnig apwyntiad i fenywod o fewn tair wythnos i'r apwyntiad mamogram cychwynnol.


Sgrinio'r fron



Pwy: Menywod 50-70 oed (dros 70 os byddwch yn gofyn)

Pryd: Pob 3 blynedd

Y prawf: Pelydr-x o'r bronnau



www.breasttestwales.wales.nhs.uk

Y Gogledd: 01492 860888

Y De-dwyrain: 029 2039 7222

Canol a de Cymru: 01792 459988

Y nifer a gafodd eu sgrinio yng Nghymru[®] (2017/18) : 72.8%

(Cymru 2016/17 – 73.1%)

∞ mae nifer y rhai a gafodd eu sgrinio yma ar gyfer y cylch mwyaf diweddar a gwblhawyd ac nid y flwyddyn 2017/18. O ganlyniad ni fydd y ffigur yma yr un peth â'r hyn a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynnyddol Bron Brawf Cymru 2017/18 a gyhoeddir ar 28 Chwefror 2019

Mae mwyafrif y menywod yng Nghymru y mae angen asesiad arnynt yn cael eu gweld o fewn tair wythnos, ac mae bron pob menyw yn cael ei gweld o fewn pedair wythnos. Fodd bynnag, ceir amrywiadau rhanbarthol. Mae hyn oherwydd lefelau staffio a diffyg gallu ac adnoddau yn y gweithlu meddygol. Un o'r heriau mwyafrif a wynebwr gan y gwasanaeth yw recriwtio ei weithlu arbenigol. Mae Bron Brawf Cymru yn gweithio ar nifer o fentrau er mwyn sicrhau bod gan y rhaglen weithlu cynaliadwy addas at y diben yn y dyfodol.

Er ei fod wedi cynyddu y llynedd, mae nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gyfer mamograffeg yng Nghymru wedi gostwng ychydig bach yn 2017/18. Y safon ofynnol yw 70%. Yng Nghymru, y nifer a gafodd eu sgrinio ar gyfer y rownd ddiweddaraf a gwblhawyd yw 72.8%. Mae Bron Brawf Cymru yn gweithio gyda'r tîm ymgysylltu â sgrinio i sicrhau bod neges glir a chyson ar risgiau a manteision sgrinio'r fron yn cael ei chyfathrebu i fenywod er mwyn iddynt allu gwneud dewis hyddysg am dderbyn eu cynnig.

Mae Bron Brawf Cymru wedi paratoi nifer o archwiliadau o ansawdd uchel dros y deuddeg mis diwethaf gan edrych ar nifer o feysydd gwahanol o ymarfer clinigol i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen yn gweithredu offer o'r radd flaenaf sy'n cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi i safon uchel.

Mae gan y rhaglen fframwaith sefydledig yn ei le er mwyn mesur profiad y defnyddiwr gwasanaethau ar gyfer y llwybrau sgrinio ac asesu. Mae sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu coladu yn fisol ac maent yn rhoi adborth ar amrywiaeth eang o faterion o ansawdd y cyfathrebu (llythyrau, taflenni a llafar) hyd at leoliad a rhwyddineb mynediad i unedau sgrinio'r fron, yn ogystal ag amseroedd apwyntiad.

Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 28 Chwefror 2019. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma:
<http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk/adroddiadau-1>

5 Sgrinio Coluddion Cymru

Nod: Nod y rhaglen sgrinio coluddion yw lleihau afiachusrwydd a marwolaeth o ganser y coluddyn.

Mae canfod canserau'n gynnar yn **ddull atal eilaidd**, ac mae tynnu polypau'n **ddull atal sylfaenol** gan y gall atal canserau rhag datblygu.

Targed: Y targed yw i 60% o'r dynion a'r menywod a wahoddir gymryd rhan mewn sgrinio.

Sgrinio'r coluddyn



Pwy: Dynion a menywod
60 i 74 oed

Pryd: Bob 2 flynedd

Y prawf: Pecyn prawf yn
y cartref



 www.bowelscreening.wales.nhs.uk
 0800 294 3370

**Y nifer a gafodd eu sgrinio yng
Nghymru (2017/18) : 55.7%**

(Cymru 2016/17 – 53.4%)

Nid yw'r nifer sy'n cael prawf sgrinio coluddyn yn cyflawni'r targed 60% yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi cynyddu 2.3% eleni. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn nifer o fentrau gan gynnwys:

- **Ymgyrch hysbysebu Bod yn Glir am Ganser:** Ar ddechrau 2018, gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru ac Ymchwil Canser y DU gynnal ymgyrch 'Bod yn Glir am Ganser' ar y teledu, yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cynnydd yn nifer y rhai a gafodd prawf sgrinio yn y 12 wythnos wedyn, gan ddangos y llwyddiant mwyaf ymhlith cyfranogwyr a wahoddwyd am y tro cyntaf. Gwelsom fod lefel uchel o ymwybyddiaeth o sgrinio coluddion eisoes. Mae angen mynd i'r afael ymhellach â chredoau ac agweddau
- **Gwybodaeth am y rhai nad ymatebodd mewn gofal sylfaenol:** Ers mis Mawrth 2018 rydym yn darparu gwybodaeth i bractisau meddygon teulu am gleifion o'u practisau nad ydynt wedi ymateb i'w gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn

Profion Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT)

Rydym wedi bod yn brysur yn ystod 2018 yn paratoi ar gyfer gweithredu FIT - y prawf sgrinio newydd a anfonir at gyfranogwyr - a byddwn yn dechrau cyflwyno hynny ym mis Ionawr 2019. Mae FIT yn fwy sensitif ac mae'r prawf yn haws i'w gwblhau. Mae tystiolaeth o gynlluniau peilot mewn rhannau eraill o'r DU wedi dangos ei fod yn sicrhau gwelliant sylweddol o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ddarparu model i optimeiddio'r rhaglen erbyn 2023 ac rydym wedi cyflwyno'r cynllun yn seiliedig ar y canlyniad iechyd cyhoeddus gorau ar gyfer y boblogaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Mae **amseroedd aros Colonosgopi** yn parhau'n broblem sylweddol i Fyrddau Iechyd, gan arwain at oedi o ran amseroldeb diagnosis i'r rhai sydd wedi cael canlyniadau prawf positif. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd i gefnogi'r gwaith o wella'r amseroedd aros hyn. Mae pob bwrdd iechyd yn datblygu strategaethau tymor byr, canolig a hirdymor er mwyn ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 14 Chwefror 2019. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma:

<http://www.bowelscreening.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

6 Sgrinio Serfigol Cymru

Nod: Nod y rhaglen sgrinio serfigol yw lleihau nifer yr achosion o ganser serfigol a'r marwolaethau o ganlyniad iddo.

Mae hyn yn **ddull atal sylfaenol**, gan ganfod a thrin newidiadau yn y groth cyn iddynt ddod yn ganser.

Targed: Y targed yw i 80% o fenywod cymwys gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio.

Mae cwmipas sgrinio serfigol ar draws Cymru yn dal yn agos at y targed o 80%. Eleni unwaith eto bu gostyngiad bach, yn unol â'r duedd a welir yng ngwledydd eraill y DU.

Mae'r rhaglen wedi bod yn

gwneud gwaith penodol gyda'r tîm ymgysylltu i archwilio'r rhesymau pam mae menywod iau yn mynychu prawf sgrinio neu'r rhesymau am beidio â gwneud hyn, yn enwedig ers i'r terfyn oed is gael ei godi.

Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn parhau â'r broses o ehangu profion Feirws Papiloma Dynol yng Nghymru. Yn dilyn cyflwyno 'Prawf Gwella' gyda phroffion Feirws Papiloma Dynol yn 2014, ac yna brysbennu Feirws Papiloma Dynol ar gyfer pob menyw ag annormaleddau ffiniol/gradd isel ar sytoleg ym mis Mai 2016, dechreuodd y rhaglen astudiaeth weithredu gan ddefnyddio Sgrinio Sylfaenol Feirws Papiloma Dynol ar gyfer 20% o'r menywod a wahoddwyd ym mis Ebrill 2017. Roedd hyn mewn ymateb i benderfyniad pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i gymeradwyo'r prawf Feirws Papiloma Dynol fel y prawf sgrinio serfigol sylfaenol, ac yna gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Adran Sgrinio roi hyn ar waith yng Nghymru. Cafodd yr astudiaeth weithredu Feirws Papiloma Dynol ei chynllunio i ddarparu gwybodaeth i lywio'r cynllunio ar gyfer cyflwyno'n llawn ledled Cymru. Gwnaed gwerthusiad llawn, gan gynnwys gwybodaeth ansoddol gan weithwyr iechyd proffesiynol a menywod sy'n rhan o'r peilot, a gyfrannodd at y cynllun ymgynnull i gyflwyno'n llawn.

Cafodd y broses o gyflwyno sgrinio sylfaenol Feirws Papiloma Dynol yn llawn i'r practisau eraill ei gwblhau erbyn mis Hydref 2018. Digwyddodd hyn yn ddidrafferth iawn ac yn llwyddiannus ac ni nodwyd unrhyw broblemau. Sgrinio Serfigol Cymru oedd y cyntaf o blith pedair gwlad y DU i gyflwyno sgrinio sylfaenol Feirws Papiloma Dynol yn llawn ar gyfer y boblogaeth gymwys gyfan.

Mae cronfa ddata Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganser Ceg y Groth yn cadw pob diagnosis o ganser ceg y groth i fenywod sy'n byw yng Nghymru. Mae'r holl achosion yn cael eu hadolygu gan yr arweinydd clinigol, yn edrych ar fanylion y canser gan gynnwys camau, a hefyd a gawsant eu canfod drwy'r rhaglen sgrinio ac a yw holl elfennau ei llwybr sgrinio wedi digwydd fel y dylent. Bydd Arweinydd Clinigol Sgrinio Serfigol Cymru yn ysgrifennu at glinigydd trin y fenyw ac yn gofyn ei fod yn hysbysu'r fenyw bod adolygiad wedi'i gynnal, ac yn gofyn iddi gysylltu â Sgrinio Serfigol Cymru os hoffai gwrdd â chynrychiolwyr o Sgrinio Serfigol Cymru er mwyn trafod y canlyniad. Er bod canlyniad yr adolygiad bob amser wedi bod ar gael i

Sgrinio serfigol



Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Pwy: Menywod 25-64 oed


Pryd: Pob 3 blynedd

(25-49 oed)

Pob 5 mlynedd

(50-64 oed)

Y prawf: Prawf ceg y groth



 www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk

 **Y Gogledd:** 01352 803277

Y De-dwyrain: 029 2078 7910

Canol a de Cymru: 01792 644677

Cwmpas Cymru (2017/18): 76.1%

(Cymru 2016/17 – 77.0%)

fenywod ac mae hyn yn glir yn y gwahoddiad sgrinio a anfonir atynt, dylai'r dull rhagweithiol hwn sicrhau bod yr holl fenywod yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r opsiwn hwn.

Cafodd data Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganser Ceg y Groth eu cynnwys yn ein hadroddiad ystadegol blynyddol am y tro cyntaf yn 2017, ac mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yno. Mae'r adroddiad hwn ar gael yma:

<http://www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

7 Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

Nod: Nod y Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol yw lleihau marwolaeth sy'n gysylltiedig ag ymlediadau aortig abdomenol. Mae hwn yn **ddull atal eilaidd**, gan ganfod ymlediadau cyn iddynt ddod yn symptomatig a galluogi'r opsiynau triniaeth gorau i gael eu rhoi ar waith.

Targed: Y targed yw i 80% o'r dynion a wahoddir gymryd rhan mewn sgrinio. Gwnaeth y nifer a gafodd eu sgrinio yn y rhaglen ostwng ychydig o dan y targed ar lefel Cymru gyfan eleni.

Dathlodd y rhaglen ei phumed pen-blwydd ym mis Mai 2018 gyda phedwar digwyddiad yn Llanelwy, Powys, Caerfyrddin a Chaerdydd. Cyhoeddwyd nifer o erthyglau a straeon defnyddwyr gwasanaethau.

Un her barhaus yw dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer sgrinio. Mae'n anodd dod o hyd i ddigon o safleoedd bwrdd iechyd addas, o safon ledled Cymru fel nad oes rhaid i ddynion deithio mwy na 30 munud i gael eu prawf sgrinio.

Yn 2017–18, gwnaeth pedwar sgriniwr dan hyfforddiant ymgymryd â'r cwrs newydd Diploma Lefel 4 Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Iechyd/Sgrinio AAA. Mae gan y rhaglen staff sydd wedi cwblhau cyrsiau aseswyr a dilysydd mewnol AGORED (corff dyfarnu diploma), sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r Diploma yn Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru.

Mae gan y rhaglen sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yng Nghymru berthynas waith agos â'r gwledydd eraill yn y DU. Mae hyn yn cynnwys rhannu arfer da a gwersi a ddysgwyd. Mae'r rhaglenni wedi gweithio'n galed ar ddatblygu diffiniadau cymaradwy o fesurau perfformiad a pharatoi adroddiad blynyddol ar gyfer y pedair gwlad. Cafodd [pecyn offer y pedair gwlad](#) er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ei lansio ym mis Mai 2018.

Elfen allweddol o'r rhaglen, ac amod i'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol yn argymhell bod rhaglen, yw atgyfeirio i wasanaethau fasgwlaidd diogel, effeithiol pan fydd ymlediadau mawr neu fawr iawn wedi'u canfod. Mae gan Gymdeithas Fasgwlaidd Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon set glir o safonau a fabwysiadwyd gan y rhaglen⁵. Cyn rhoi'r rhaglen sgrinio ar waith, cytunodd yr holl fyrddau iechyd y byddent yn gweithio tuag at ddatblygu tri rhwydwaith fasgwlaidd yng Nghymru. Nid yw'r un o'r rhwydweithiau wedi'i sefydlu'n llawn eto, ac mae'r cynnydd yn amrywiol ar draws Cymru. Cynhaliwyd ymweliadau sicrhau ansawdd ym mis Hydref 2018, a chaiff yr adroddiadau terfynol eu rhannu â'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. Dyma ein


Sgrinio ymlediadau aortig abdomenol

Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme

Pwy: Dynion 65 oed (dros 65 os byddwch yn gofyn)

Pryd: Un prawf

Y prawf: Sgan uwchsain



www.aaascreening.wales.nhs.uk
Y Gogledd: 01492 863563
Y De-dwyrain: 01443 235161
Canol a de Cymru: 01792 453162

Y nifer a gafodd eu sgrinio yng Nghymru (2017/18) : 79.2%

(Cymru 2016/17 – 80.8%)

⁵ Canllawiau VSGBI: <https://www.vascularsociety.org.uk/search/?q=povs%202015>

prif bryder ar gyfer y rhaglen. Mae'r adroddiad ystadegol blynyddol nesaf i'w gyhoeddi ar 31 Ionawr 2019. Mae hyn, a'r adroddiadau blaenorol, ar gael yma: <http://www.aascreening.wales.nhs.uk/adroddiadau-ystadegol>

8 Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant

Mae'r tair Rhaglen Sgrinio Mamau a Phlant bellach yn cael eu rheoli fel un uned. Mae hyn yn hwyluso trefniadau rhannu arfer da ac yn galluogi trefniadau dysgu a gweithio ar draws y tair rhaglen lle mae'r boblogaeth darged yr un peth.

Sgrinio Cyn Geni Cymru

Cynhelir y rhaglen sgrinio cyn geni er mwyn canfod cyflyrau difrifol penodol yn y fam neu'r baban sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y naill neu'r llall, a lle mae ymyriad effeithiol ar gael.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnal Sgrinio Cyn Geni Cymru, y rhwydwaith clinigol a reolir ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru. Rôl y rhwydwaith yw sefydlu polisïau, safonau a fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad sgrinio cyn geni.


Sgrinio cyn geni

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Pwy: Pob menyw

Pryd: Yn ystod beichiogrwydd

Y prawf: Profion gwaed a sgan uwchsaïn



www.antenatalscreening.wales.nhs.uk

Bu hon yn flwyddyn brysur i'r rhaglen. Disgrifir enghreifftiau isod o'r gwaith a wnaed. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol cyntaf Sgrinio Cyn Geni Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, sydd ar gael yn:

<http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk/professional/document/317048>

- Mae SCG yn parhau i weithio mewn partneriaeth â grŵp eang o randdeiliaid ledled Cymru a'r DU i fonitro'r safonau a'r protocolau ar gyfer sgrinio cyn geni
- Mae'r tîm yn parhau i fynd i gyfarfodydd ar lefel y DU sy'n sail i'r rhaglenni sgrinio. Yn ddiweddar, daeth y Cyfarwyddwr Sgrinio yn gadeirydd Iechyd y Ffetws, Mamau a Phlant sy'n gorff cynghori ar gyfer Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU
- Ym mis Awst 2017, argymhellodd Llywodraeth Cymru (LIC), yn unol ag argymhellion Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC), gyflwyno profion cynenedigol anfewnwithiol (NIPT), yn y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i SCG arwain ar waith y byrddau iechyd i weithredu llwybr sgrinio newydd ar gyfer syndrom Down, Edwards a Patau mewn beichiogrwydd babanod unigol a gefeilliaid yng Nghymru, gan gynnig NIPT fel prawf wrth gefn ar gyfer beichiogrwydd babanod unigol cyfle uwch. Effeithiodd y newid polisi hwn ar wasanaethau mamolaeth, uwchsaïn, biocemeg, genetig a thrafnidiaeth ledled Cymru. Cafodd y llwybr sgrinio newydd ei weithredu wyth mis yn ddiweddarach, ar 30 Ebrill, gyda gwerthusiad tair blynedd parhaus o'r Rhaglen. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i weithredu argymhellion UK NSC.

- Yn 2018 cafodd gwybodaeth Hawdd ei Darllen i fenywod ar gyfer yr wyth rhaglen sgrinio cyn geni eu cwblhau a'u cyhoeddi.
- Arweiniodd adolygiad o'r canllawiau ar gyfer arsylwadau penodol o ansicrwydd sylweddol at ddatblygu llwybrau newydd ochr yn ochr â llunio taflenni gwybodaeth i fenywod.

Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru

Nod y rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig yng Nghymru yw cynnig prawf sgrinio ansawdd sicr i'r holl fabanod cymwys, yn bum diwrnod oed, ar gyfer cyflyrau difrifol a fyddai'n cael budd o ymyriad cynnar a lleihau marwolaethau a/neu afiachedd o'r clefyd. Mae'r prawf yn cynnwys cymryd sampl bach o waed a gymerir o sawdl y baban rhwng pumed ac wythfed diwrnod ei fywyd. Mae'r prawf sgrinio'n rhan o ofal ôl-enedigol rheolaidd. Cymerir hwn fel arfer gan y fydwraig gartref, neu yn yr ysbyty.

Ledled Cymru, cafodd **99.3%** o fabanod cymwys eu profi yn 2017/18.

Yng Nghymru, yn unol ag Argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, y cyflyrau sy'n cael eu sgrinio ar hyn o bryd yw isthyroidedd cynhenid, ffibrosis systig, anhwylderau crymangelloedd, ac anhwylderau metabolig etifeddol (Ffenylcetonwria, diffygiant dehydrogenas asyl-CoA cadwyn ganolig, asidwria glwtarig teip 1, homosystinwria, asidemia isofalerig a chlefyd wrin surop masarn).

Yn 2017/18, cafodd 31,932 o fabanod eu profi, sef 99.3% o'r boblogaeth gymwys. Cafodd 39 o gyflyrau difrifol eu nodi. Ceir rhagor o wybodaeth yn adroddiad Blynnyddol Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, sydd ar gael yn: <http://www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk/adroddiad-blynnyddol>

Sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig



Pwy: Pob babi newydd-anedig

Pryd: 5 diwrnod ar ôl yr enedigaeth

Y prawf: Gwaed o sawdl y babi



www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk

Un o'r heriau mwyaf i'r rhaglen o hyd yw ansawdd samplau smotyn gwaed a geir yn y labordy. Mae'n bwysig osgoi oedi a achosir gan yr angen i ailadrodd samplau, oherwydd yr angen am ddiagnosis a thriniaeth gyflym gyda'r nod o atal canlyniadau difrifol ar gyfer y babi. Mae cael sampl o ansawdd uchel y tro cyntaf yn gwella'r profiad i rieni a babanod. Mae'r rhaglen wedi rhoi nifer o fentrau yn eu lle gyda'r Byrddau Iechyd, gan weithio gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth, Arweinwyr Llywodraethu, Unedau Newyddenedigol ac Ymwelwyr

Iechyd. Mae'r gyfradd ailadrodd y mae modd ei hosgoi yn parhau allan o safon, ac mae'n gwella, ond nid yw wedi cyrraedd y targed eto, sef llai na 2%.

Sgrinio Clyw Babanod Cymru

Nod y rhaglen hon yw nodi babanod â nam sylweddol ar y clyw sy'n ddigon sylweddol i achosi anabledd neu achosi anabledd o bosibl. Mae cael gwybod yn gynnar yn golygu y gellir cynnig cymorth a gwybodaeth yn gynnar. Cynigir prawf sgrinio i'r holl fabanod y mae eu mamau'n byw yng Nghymru yn ystod pedair wythnos gyntaf eu hoes.

Mae nifer y rhai sy'n cael prawf yn parhau i fod yn uchel iawn heb anghydraddoldeb canfyddadwy yn ôl amddifadedd. Mae'r rhaglen yn parhau i berfformio'n dda iawn ac mae'n cyrraedd y safonau llym a osodwyd. Mae'r adroddiadau ystadegol diweddaraf ar gael yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/980/tudalen/56140>

Mae'r diploma mewn sgrinio iechyd yn rhan bwysig o raglen addysg a hyfforddiant Sgrinio Clyw Babanod ar gyfer darparu'r gwasanaeth. Mae'r gwaith yn parhau i gael ei ddatblygu. Yn ogystal â'r rhaglenni mamau a phlant eraill, mae Sgrinio Clyw Babanod wedi cyhoeddi gwybodaeth Hawdd ei Darllen i rieni yn ddiweddar. Mae'r rhain yn defnyddio lluniau ac iaith syml er mwyn esbonio sgrinio a helpu rhieni i wneud penderfyniadau hyddysg.

Mae'r gwasanaeth mewn ysbytai ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr byrddau iechyd i gynnal safonau ar draws y llwybr sgrinio a diagnostig.

9 Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Nod: Nod y rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig yw lleihau achosion o golli golwg oherwydd retinopathi diabetig.

Mae hwn yn ddull **atal eilaidd**, yn canfod retinopathi'n gynnar cyn iddo ddod yn symptomatig a galluogi'r opsiynau triniaeth gorau i gael eu rhoi ar waith.

Trosglwyddodd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) i'r Adran Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 1 Ebrill, 2016 o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle y cafodd ei gynnal gyntaf ers cael ei sefydlu yn 2002.

Mae'r gwasanaeth yn bodoli i nodi retinopathi diabetig ar gam cynnar, i atal colli golwg yn barhaol. Oherwydd bod diabetes yn effeithio ar bobl o bob oed, DESW yw'r

Sgrinio clyw babanod



Pwy: Pob babi newydd-anedig

Pryd: O fewn 2 wythnos i'r enedigaeth

Y prawf: Prawf clyw



www.newbornhearingcreening.wales.nhs.uk

Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio Cymru Gyfan: 99.4%

(Cymru Gyfan 2016/17 – 99.5%)


Sgrinio llygaid diabetig



Pwy: Pawb dros 12 oed sydd â diabetes

Pryd: Pob blwyddyn

Y prawf: Ffotograffau o'r llygaid



www.eyecare.wales.nhs.uk/DRSSW
01443 844244

unig raglen sgrinio genedlaethol sy'n cwmpasu plant ac oedolion. Mae atgyfeirio i'r rhaglen yn digwydd gan feddyg teulu'r claf pan fydd diagnosis o ddiabetes wedi ei wneud.

Mae'r rhaglen yn cynnig sgrinio i'r holl bobl sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru sydd wedi cael diagnosis a gadarnhawyd o ddiabetes ac sy'n 12 oed neu'n hŷn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi croesawu Pennaeth Rhaglen newydd, sef Jude Kay, ac wedi datblygu cynllun moderneiddio gyda'r nod o barhau i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth ynghylch:

- Gweithdrefnau a pholisïau gweithredu safonol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru
- Gweithdrefnau cadarn a diogel
- Lleihau amseroedd aros y gwasanaeth
- Adolygu gwybodaeth i'r cyhoedd

Fel rhan o'n cynllun moderneiddio:

- Am y tro cyntaf, mae'r rhaglen wedi dechrau cyhoeddi gwybodaeth fisol yn erbyn safonau gwasanaeth sydd newydd eu datblygu, a dechreuodd hyn ym mis Ebrill 2018
- Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i ailddylunio i greu rôl gryfach ar gyfer cynrychiolwyr allanol sy'n gallu darparu mwy o graffu a her ddefnyddiol o amgylch datblygiadau gwasanaeth
- Yn ddiweddar gwnaethom benodi tîm bach i arwain prosiect mawr i gyflwyno sgrinio seiliedig ar risg yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU


Mae disgwyl i adroddiad ystadegol blynyddol y rhaglen gael ei gyhoeddi ar 18 Chwefror 2019 ar ein tudalen we

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95241/>

10 Rhagolwg

Mae cynlluniau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Cyflwyno profion FIT ar gyfer sgrinio coluddion i'w cyflwyno o ddiwedd mis Ionawr: bydd ffocws parhaus ar gynllunio ar gyfer y newid gwasanaeth pwysig hwn
- Mae Sgrinio Serfigol yn cynllunio system alw/ailalw newydd - y system gyntaf i'w datblygu fel rhan o brosiect Rheoli Gwybodaeth Sgrinio ehangach yr Adran Sgrinio. Bwriedir 'mynd yn fyw' yn 2019
- Dechrau prosiect ar ysbeidiau sgrinio sail risg yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU
- Gwerthuso gwaith cyflwyno profion cyn geni anfewnwithiol fel prawf amodol yn Sgrinio Cyn Geni Cymru
- Parhau i wella profiad defnyddwyr gwasanaethau, gwaith ymgysylltu a nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio, wrth ganolbwyntio ar anghydraddoldeb o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio.



Sgrinio ar gyfer y Dyfodol

Yn 2016/17, comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad allanol i edrych ar strwythur yr adran sgrinio a'r ffordd roedd y rhaglenni gwahanol yn cael eu trefnu. Gwnaeth y gwaith hefyd ymgorffori canlyniadau arolwg staff y GIG ac adborth staff a chafodd ei galw'n rhaglen Sgrinio ar gyfer y Dyfodol.

Nod y rhaglen oedd trefnu'r adran i addasu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol gyda chyn lleied o darfu â phosibl, sicrhau potensial mwyaf posibl staff drwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu staff hyfforddedig a brwdfrydig iawn a pharhau i adeiladu ar berfformiad sydd eisoes yn rhagorol ar draws yr holl raglenni. Hyd yma, aed i'r afael â 12 o'r 20 o argymhellion adolygu a chaiff yr argymhellion eraill eu datblygu yn 2019.

Un o'r ffrydiau gwaith allweddol i ddeillio o'r rhaglen yw Sicrhau Ansawdd, gan ganolbwyntio ar reoli llwybrau/gwahoddiadau a sicrwydd clinigol. Mae'r ffrwd waith wedi'i sefydlu i adolygu, datblygu ac ymgorffori prosesau Sicrhau Ansawdd cyson ar draws yr wyth rhaglen sgrinio. Mae ymarfer meincnodi a dadansoddiad o'r bylchau wedi'i gynnal er mwyn adolygu'r amrywiadau mewn systemau ar draws yr holl raglenni. Y canlyniad fydd dull systematig, adrannol o ran Sicrhau Ansawdd yn seiliedig ar Fframwaith Sicrhau Ansawdd a chyfres o egwyddorion craidd.

Pan fydd yr argymhellion o'r adolygiad wedi'u cwblhau, caiff cynllun ei ddatblygu i amlinellu'r datblygiadau strategol parhaus a fydd yn ofynnol ar gyfer yr Adran.

11 Tîm cynhyrchu

Mae'r tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn a gyflogir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u rhestru isod:

Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio
Heather Lewis	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus
Catherine Floyd	Cofrestrydd
Helen Clayton	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Guy Stevens	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Anna Ashman	Rheolwr Cyfathrebu
Sarah Thomas	Swyddog Cyfathrebu
Jennifer McGrath	Cynorthwydd Clerigol
Rhys George	Cofus Cyf (Cyfieithiad)

12 Rhestr Cyn Rhyddhau

Cafodd yr Ystadegau Swyddogol hyn eu hanfon at y bobl ar y rhestr cyn-rhyddhau hon bum diwrnod gwaith cyn cyhoeddi yn unol â Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Jan Williams	Cadeirydd
Dr Tracey Cooper	Prif Weithredwr
Dr Quentin Sandifer	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Meddygol
Leah Morantz	Pennaeth Cyfathrebu

Llywodraeth Cymru

Dr Frank Atherton	Prif Swyddog Meddygol
Dr Andrew Goodall	Cyfarwyddwr Cyffredinol - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Rebekah Tune	Pennaeth Cyfathrebu Strategol a Marchnata
Yr Athro Chris Jones	Dirprwy Brif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Neil Surman	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus
Dr Heather Payne	Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant
Helen Tutt	Uwch-swyddog Gweithredol ar gyfer Sgrinio, Imiwneiddio ac Iechyd Rhywiol
Stephen Thomas	Pennaeth y Gangen Gwasanaethau Diogelu Iechyd

Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gael drwy'r gwefannau a'r cysylltiadau allweddol a restrir.

- Gwefan Sgrinio am Oes: www.screeningforlife.wales.nhs.uk
- Gwefannau Rhaglenni:
 - Sgrinio Cyn Geni Cymru www.antenatalscreening.wales.nhs.uk
 - Bron Brawf Cymru www.breasttestwales.wales.nhs.uk
 - Sgrinio Coluddion Cymru www.bowelscreeningwales.org.uk
 - Sgrinio Serfigol Cymru www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk
 - Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk
 - Sgrinio Clyw Babanod Cymru www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk
 - Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru www.aascreening.wales.nhs.uk
 - Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95241/>
- Gwefan Gweithwyr Proffesiynol Sgrinio (angen manylion mewngofnodi GIG Cymru ar hyn o bryd): <http://howis.wales.nhs.uk/screeningprofessionals>

Mae'r **negeseuon allweddol** ar gael ar y gwefannau neu drwy'r dolenni hyn:

[Sgrinio'r fron](#)

[Sgrinio Coluddion](#)

[Sgrinio Serfigol](#)

[Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol](#)

[Sgrinio Cyn Geni](#)

[Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig](#)

[Sgrinio Clyw Babanod](#)



Mae **Pecyn Adnoddau** Sgrinio am Oes ar gael drwy'r wefan neu ar y [ddolen hon](#)

Bydd **rhagor o ddata** ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio ar gael ar wefannau'r rhaglenni yn yr adroddiadau ystadegol blyneddol. Mae data eraill sydd ar gael yn cynnwys

- [Nifer y rhai a gafodd eu sgrinio/cwmpas yn ôl bwrdd iechyd ac awdurdod lleol](#)
- [nifer y rhai a gafodd eu sgrinio/cwmpas yn ôl clwstwr meddygon teulu](#)

Cysylltiadau allweddol:

Dr Sharon Hillier, Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio

Dr Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus

Heather Lewis, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus

Heather Ramessur-Marsden, Prif Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio

Yr Adran Sgrinio, Llawr 4, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ

Ffôn: (029) 2022 7744 **Minicom:** (029) 2078 7907

E-bost: screening.feedback@wales.nhs.uk

Dolen i dudalen gyswilt ar y we:

<http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/cysylltu-ni>